16 Rhagfyr 2022

Annwyl

**Cais am Wybodaeth – ATISN 16875**

Ysgrifennais atoch ar 6 Rhagfyr ynglŷn â'ch cais am wybodaeth.

**Eich cais**

Rydych wedi gofyn am yr wybodaeth ganlynol yn ymwneud â'r Gweinidog presennol dros yr Economi:

**1. Pa mor aml y mae wedi ymweld â gogledd ddwyrain Ynys Môn a phwrpas pob ymweliad.**

**2. Pa mor aml y mae'n bersonol wedi mynychu cyfarfodydd lle mae bywyd economaidd Gogledd Ddwyrain Môn wedi'i drafod.**

**3. Darparu manylion y cyfryw gyfarfod y cyfeirir ato yn 2 uchod gan gynnwys cofnodion a/neu nodiadau yn ymwneud â chyfarfodydd o'r fath.**

**Ein hymateb**

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth sy'n ateb eich cais.
Ar gyfer cwestiwn un, cyhoeddir dyddiadau yr holl gyfarfodydd a thrafodaethau Gweinidogol bob chwarter ar ôl iddynt ddigwydd. Defnyddiwch y ddolen ganlynol i gael mynediad at yr wybodaeth:

Cyfarfodydd a digwyddiadau gweinidogol | LLYW.CYMRU

Ar gyfer cwestiwn dau, mae Gweinidog yr Economi wedi bod i un cyfarfod lle cafodd bywyd economaidd gogledd-ddwyrain Môn ei drafod.
Ar gyfer eich cwestiwn olaf, gallaf gadarnhau bod gennym y nodiadau cyfarfod a'r camau dilynol o'r cyfarfod a gynhaliwyd rhwng Gweinidog yr Economi a Chyngor Sir Ynys Môn ym mis Awst eleni. Darperir y darn perthnasol o'r nodyn cyfarfod isod:

**Cyfarfod**: Cyfarfod â Chyngor Sir Ynys Môn
Dydd Mercher 10.08.2022

**Yn bresennol:**
Llywodraeth Cymru:
Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething

**Allanol:**
Arweinydd Ynys Môn

**2 x Swyddogion LlC**

**Camau Gweithredu o'r cyfarfod:**

• Datblygiadau solar (gan gynnwys Fferm Solar Môn) – swyddogion Llywodraeth Cymru i barhau i gysylltu â swyddogion Ynys Môn.
• Llyn Alaw – Cyngor Sir Ynys Môn wedi hysbysu Gweinidog yr Economi o gyswllt â Dŵr Cymru i gael mynediad i'r llyn at ddibenion twristiaeth.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y deliodd Llywodraeth Cymru â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:
Uned Hawliau Gwybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

neu e-bostiwch: Freedom.ofinformation@llyw.cymru
Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi na fydd y Comisiynydd yn ymchwilio i gŵyn fel arfer nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ein hunain.

Yn gywir